Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer staff Estyn

## Hydref 2024

## Taflen wybodaeth

**Blwch gwybodaeth**

I gael rhagor o gyngor, cysylltwch â: Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Fersiwn: 1.3

**Rheoli fersiwn**

| Fersiwn y ddogfen | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Medi 2018 | Polisi newydd |
| 1.1 | Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Gorffennaf 2021 | Mân ddiweddariadau – ychwanegwyd:<br>‘neu rywun sy’n gweithio i ni’ (llinell gyntaf – Adran 2), ac:<br>**ein cynghorwyr proffesiynol** pan fydd ei hangen arnynt i roi eu cyngor proffesiynol i ni<br>(Adran 7) |
| 1.2 | Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth | Ionawr 2022 | Gwneud newidiadau yn unol â diwygiadau i’r prif Hysbysiad Preifatrwydd a menter goslef y llais. |
| 1.3 | Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Data | Medi 2024 | Mân newidiadau i wybodaeth rydym ni’n ei dal – e.e. ID ffotograffig / cofnodion mynediad drysau.<br>Egluro y gallem drosglwyddo eich data personol y tu allan i’r DU (yn amodol ar amddiffyniad cyfreithiol cyfwerth).<br>Adolygwyd gan gyfreithwyr i sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol. |

**Asesiad Effaith**

Cynhaliwyd asesiad effaith ac nid ystyrir bod y polisi hwn yn effeithio’n niweidiol ar:

- unrhyw bobl ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a’r Gymraeg
- cyflawni ein hamcanion strategol a’n cyfraniad at gynaliadwyedd.

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | I bwy mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol? | 1 |
| 3 | Sut rydym ni'n ymdrin â phreifatrwydd? | 1 |
| 4 | Pa wybodaeth bersonol rydym ni'n ei dal amdanoch chi a sut rydym ni'n cael y wybodaeth hon? | 3 |
| 5 | At ba ddiben byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw ein sail gyfreithiol dros wneud? | 4 |
| 6 | Pa wybodaeth bersonol categori arbennig rydym ni'n ei dal amdanoch chi? | 6 |
| 7 | At ba ddiben byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol categori arbennig a beth yw ein seiliau cyfreithiol dros wneud? | 6 |
| 8 | Am ba hyd rydym ni'n cadw'ch gwybodaeth? | 8 |
| 9 | Gyda phwy rydym ni'n rhannu'ch gwybodaeth? | 8 |
| 10 | Sut rydym ni'n cadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel? | 9 |
| 11 | Pa hawliau sydd gennych o dan gyfraith diogelu data? | 10 |
| 12 | Eich hawl i dynnu cydsyniad yn ôl | 13 |
| 13 | Cywirdeb | 13 |
| 14 | Sut gallwch chi gysylltu â ni? | 13 |
| 15 | Yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | 13 |

## 1 Cyflwyniad

Croeso i hysbysiad preifatrwydd Estyn ar gyfer ein staff. Rydym yn ymrwymo i amddiffyn preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol

Estyn yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru. Wrth gyflawni ein rôl fel arolygiaeth, rydym yn casglu ac yn cael gwybodaeth bersonol am unigolion, gan gynnwys amdanoch chi fel aelod o'n staff, ac rydym yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol honno.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar gyfer staff yn amlinellu'r safonau y gallwch eu disgwyl gennym pan fyddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol, ynghyd â manylion am sut a phryd rydym ni'n ei chasglu a sut rydym ni'n ei defnyddio.

Hefyd, mae'n amlinellu gwybodaeth am ba hawliau sydd gan unigolion yn gysylltiedig â'u gwybodaeth bersonol o dan gyfraith diogelu data a beth i'w wneud os oes ganddynt adborth neu gŵyn. Hefyd, rydym yn darparu manylion am sut y gallant gysylltu â ni neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ragor o wybodaeth.

## 2 I bwy mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol?

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i holl weithwyr Estyn, staff asiantaeth a staff ar secondiad neu fenthyg. Yn yr adrannau isod, rydym yn defnyddio "chi" neu "eich" wrth gyfeirio at staff.

## 3 Sut rydym ni'n ymdrin â phreifatrwydd?

Rydym ni'n cymryd eich preifatrwydd o ddifrif ac rydym am i chi deimlo'n hyderus bod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn ein dwylo ni.

Byddwn ond yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn unol â chyfraith diogelu data sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr o bryd i'w gilydd.

O dan gyfraith diogelu data, pan fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, byddwn yn ymddwyn fel rheolydd data. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu y byddwn ni'n gwneud penderfyniadau am sut caiff eich gwybodaeth bersonol ei dal a'i defnyddio a pham.

Isod, rydym ni'n crynhoi'r prif reolau sy'n berthnasol i ni o dan gyfraith diogelu data pan fyddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol:

1. Rhaid i ni fod yn agored am sut rydym ni'n bwriadu defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a rhaid i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn deg. Mae darparu gwybodaeth am breifatrwydd i unigolion (fel yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn) yn un ffordd rydym ni'n gwneud hyn.

2. Rhaid i ni ond ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol os oes gennym sail gyfreithiol dros wneud o dan gyfraith diogelu data. Mae'r seiliau cyfreithiol hyn yn cynnwys bod defnyddio'ch gwybodaeth bersonol gennym yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r contract a wnaethom gyda chi, ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd, neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd bod prosesu'ch gwybodaeth bersonol gennym yn angenrheidiol i arfer swyddogaeth a roddwyd i ni trwy statud, sy'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) swyddogaethau yn Neddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd. Hefyd, gallwn ond defnyddio gwybodaeth bersonol fel y gallwn gydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol. Mewn rhai sefyllfaoedd, gallwn ddefnyddio gwybodaeth bersonol oherwydd bod buddiant dilys i ni yn sgil gwneud hynny.

3. Gallwn ond defnyddio rhai mathau o wybodaeth bersonol sensitif, y cyfeirir ati fel gwybodaeth bersonol categori arbennig (fel gwybodaeth am eich iechyd, eich tras hiliol neu ethnig, neu'ch crefydd), os gallwn hefyd fodloni un o'r amodau ar gyfer prosesu'r math hwn o wybodaeth a nodir mewn cyfraith diogelu data, yn ychwanegol at y rhesymau ym mharagraff 2 uchod. Mae'r amodau hyn yn cynnwys:

    a. eich bod wedi rhoi eich cydsyniad penodol i ni i ddefnyddio'r wybodaeth
    b. mae angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu arfer hawliau yn gysylltiedig â chyflogaeth
    c. mae'r prosesu'n angenrheidiol oherwydd bod budd sylweddol i'r cyhoedd

4. Dim ond o dan rai amgylchiadau y caniateir i ni rannu'ch gwybodaeth bersonol ag eraill ac, os byddwn ni'n gwneud hynny, byddwn ni'n cymryd camau i sicrhau y bydd eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

5. Rhaid i ni ond ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at y dibenion penodol yr ydym wedi dweud wrthych amdanynt. Os ydym am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion eraill, bydd angen i ni gysylltu â chi eto i roi gwybod i chi am hyn.

6. Ni chawn ddal mwy o wybodaeth bersonol nag y mae ei hangen arnom at y dibenion y dywedom ni wrthych ac ni chawn gadw'ch gwybodaeth bersonol am gyfnod hwy na'r angen at y dibenion hynny (yr enw ar hyn yw'r "cyfnod cadw"). Hefyd, os nad oes angen gwybodaeth arnom mwyach, rhaid i ni gael gwared arni'n ddiogel. Mae manylion pellach i'w gweld yn ein Polisi ar Gadw a Gwaredu Cofnodion.

7. Rhaid i ni sicrhau bod gennym fesurau diogelwch priodol ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol.

8. Rhaid i ni weithredu yn unol â'ch hawliau o dan gyfraith diogelu data.

9. Gan fod eich data personol yn cael ei storio ar ein seilwaith TG, a'i rannu gyda'n proseswyr data, gellir ei drosglwyddo a'i storio'n ddiogel y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Os felly, bydd yn destun amddiffyniad cyfreithiol cyfwerth naill ai drwy drosglwyddo data personol dim ond i wlad sydd â phenderfyniad digonolrwydd ar waith sy'n barnu bod y cyfryw wlad yn darparu lefel ddigonol o amddiffyniad ar

gyfer data personol neu drwy ddefnyddio Cymalau Cytundebol Safonol neu Gytundebau Trosglwyddo Data Rhyngwladol, sy'n rhoi i'r data personol a drosglwyddwyd yr un amddiffyniad ag sydd ganddo yn y DU.

10. Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd ag unrhyw bolisi preifatrwydd neu bolisi prosesu teg arall y gallwn eu darparu ar adegau penodol pan fyddwn ni'n casglu neu'n prosesu'ch gwybodaeth bersonol, fel eich bod yn llwyr ymwybodol ynghylch sut a pham rydym ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ategu hysbysiadau a pholisïau preifatrwydd eraill ac ni fwriedir iddo fod yn drech na nhw.

Rydym yn adolygu'n hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd. Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf ar 31 Hydref 2024.

Mae'n bwysig bod y wybodaeth bersonol rydym ni'n ei dal amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os bydd eich data personol yn newid yn ystod eich perthynas gyda ni.

## 4 Pa wybodaeth bersonol rydym ni'n ei dal amdanoch chi a sut rydym ni'n cael y wybodaeth hon?

Fel un o gyflogeion Estyn, neu rywun sy'n gweithio i ni, byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth bersonol benodol amdanoch chi pan fyddwch chi'n dechrau gweithio i ni ac yn ystod eich cyflogaeth/penodiad.

Mae cyfraith diogelu data yn diogelu gwybodaeth bersonol sef, yn ei hanfod, unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn ohoni. Mae math o wybodaeth bersonol sy'n cael ei diogelu ymhellach oherwydd ei natur sensitif neu breifat. Weithiau, gelwir hyn yn 'wybodaeth bersonol categori arbennig' ac mae'n golygu gwybodaeth bersonol am hil unigolyn, tarddiad ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth (neu ddiffyg aelodaeth) o undeb llafur, gwybodaeth am eneteg, gwybodaeth fiometrig (lle y'i defnyddir i adnabod unigolyn) a gwybodaeth am iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

Caiff y wybodaeth hon naill ai ei chasglu'n uniongyrchol oddi wrthych chi neu weithiau oddi wrth asiantaeth cyflogaeth neu ddarparwr gwiriad cefndir. Weithiau, byddwn yn casglu gwybodaeth ychwanegol gan drydydd parti, gan gynnwys cyn-gyflogwyr/cyflogwyr eraill, asiantaethau gwirio credyd neu asiantaethau eraill gwirio cefndir, gweinyddwyr pensiynau, gweithwyr meddygol proffesiynol, gweithwyr eraill, y Swyddfa Gartref, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

Gall y wybodaeth a gasglwn yn ystod eich cyflogaeth/penodiad â ni gynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a'ch manylion cyswllt*
- eich dyddiad geni*
- eich rhywedd
- eich manylion teuluol
- eich addysg a'ch cymwysterau*
- eich medrau, eich profiad a'ch aelodaeth o gyrff proffesiynol*

- eich rhif Yswiriant Gwladol a'ch cod treth*
- manylion eich cyswllt mewn argyfwng a'ch perthynas agosaf
- eich manylion banc, manylion cyflogres a gwybodaeth am eich statws treth *
- manylion eich cyflog, gwyliau blynyddol, pensiwn a buddion
- tystiolaeth o'ch gallu i weithio yn y DU, eich cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo (bydd angen darparu tri math o wybodaeth adnabod)*
- gallu yn y Gymraeg
- ffotograffau (ar gyfer ID staff)
- gwybodaeth y mae eich cyflogwr/cyflogwyr blaenorol a chanolwyr eraill yn ei darparu
- eich hanes cyflogaeth
- gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses recriwtio yr ydym yn ei chadw yn ystod eich cyflogaeth
- eich telerau ac amodau gweithio (e.e. tâl, oriau gweithio, gwyliau, buddion, trefniadau gweithio gartref)
- manylion unrhyw rolau neu benodiadau neu fuddion busnes eraill sydd gennych
- unrhyw ddamweiniau'n gysylltiedig â gwaith
- unrhyw hyfforddiant a wnaethoch
- unrhyw geisiadau am weithio hyblyg
- unrhyw faterion disgyblu, achwyno/anghydfod, ymchwiliadau'r gweithle neu faterion eraill yn gysylltiedig â'ch cyflogaeth/penodiad neu y gallech ddarparu gwybodaeth amdanynt
- eich cofnod presenoldeb a gwyliau a gymerwyd (e.e. gwyliau, amser hyblyg, absenoldeb salwch, teulu, absenoldeb arbennig)
- eich adolygiadau perfformiad a chyfnod prawf
- unrhyw wybodaeth bersonol arall rydych chi'n ei rhannu gyda ni, gan gynnwys amgylchiadau cymdeithasol a ffordd o fyw
- unrhyw addasiad(au) rhesymol a wnaed i'ch rôl neu i'ch gwaith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- cofnodion mynediad drysau yn gysylltiedig â'n swyddfa
- gwybodaeth am eich defnydd o'n systemau TG, cyfathrebu ac eraill

Gofynnir am rywfaint o'r data personol oherwydd bod cael a defnyddio'r wybodaeth yn ofyniad cyfreithiol neu gytundebol neu mae'n rhaid darparu'r wybodaeth er mwyn gallu llunio contract gyda chi (mae * yn dangos y wybodaeth hon uchod). Bydd methiant i ddarparu gwybodaeth benodol yn ein hatal rhag ymwneud â chi neu gyflawni'r contract a wnaed gyda chi.

## 5 At ba ddiben byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw ein sail gyfreithiol dros wneud?

Defnyddiwn y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch at nifer o ddibenion gwahanol, sy'n cael eu rhestru isod. O dan gyfraith diogelu data, mae'n rhaid bod gennym sail gyfreithiol dros ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol; amlinellwn isod y seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnynt hefyd.

Defnyddiwn y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch am y rhesymau canlynol:

- cydymffurfio a dangos cydymffurfiad â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, fel gwirio bod gennych hawl gyfreithiol i weithio yn y DU, didynnu cyfraniadau PAYE ac Yswiriant Gwladol, cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chydymffurfio â chyfreithiau cyflogaeth eraill
- atal twyll
- cydymffurfio â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch
- cydymffurfio a dangos cydymffurfiad ag unrhyw ofynion rheoleiddiol

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich gwybodaeth bersonol yw ei bod yn angenrheidiol i ni ei phrosesu er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

Hefyd, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch am y rhesymau canlynol:

- cydymffurfio â'n contract gyda chi, a'i orfodi, a rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau
- eich talu chi a rhoi unrhyw fuddion i chi y mae gennych hawl iddynt, gan gynnwys pensiwn
- at ddibenion gweinyddu contract neu gyflogaeth yn gyffredinol

Ym mhob un o'r achosion hyn, y seiliau cyfreithiol y dibynnwn arnynt ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol yw ei bod yn angenrheidiol ei phrosesu er mwyn cyflawni'r contract rhyngom ni ac ein galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Hefyd, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch am y rhesymau canlynol:

- delio ag unrhyw faterion disgyblu ac achwyno/anghydfod a allai godi mewn perthynas â chi neu y gallech ddarparu gwybodaeth berthnasol amdanynt
- cofnodi'ch absenoldebau o'r gwaith a'ch amser i ffwrdd
- adolygu a rheoli eich perfformiad a'ch datblygiad
- galluogi cynllunio a rheoli busnes, gan gynnwys cyfrifyddu ac archwilio
- ymateb i geisiadau am eirda
- monitro cydymffurfiad ag unrhyw rai o'n polisïau a'n gweithdrefnau
- cynnal adolygiadau o berfformiad, rheoli perfformiad a phennu gofynion perfformio
- gwneud penderfyniadau am iawndal
- asesu cymwysterau ar gyfer swydd neu dasg benodol, gan gynnwys penderfyniadau am ddyrchafiadau
- gwneud penderfyniadau am eich cyflogaeth neu eich penodiad
- gwneud trefniadau ar gyfer terfynu ein perthynas waith
- asesu gofynion addysg, hyfforddiant a datblygiad
- monitro'ch defnydd ar ein systemau gwybodaeth a chyfathrebu

- sicrhau diogelwch y rhwydwaith a gwybodaeth, gan gynnwys atal mynediad anawdurdodedig at ein systemau cyfathrebu electronig a chyfrifiadurol, ac atal dosbarthu meddalwedd faleisus
- cynnal astudiaethau dadansoddi data, er enghraifft i adolygu cyfraddau cadw ac ymadael cyflogeion, a'u deall yn well

Yn yr achosion hyn, y seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnynt i brosesu eich gwybodaeth bersonol fydd bod hynny'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r contract rhyngom, i'n galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol ac am fod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i Estyn, fel y'i hamlinellir mewn deddfwriaeth, sef Deddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygir o dro i dro.

## 6 Pa wybodaeth bersonol categori arbennig rydym ni'n ei dal amdanoch chi?

Gallech ddewis datgelu gwybodaeth bersonol categori arbennig i ni. Bydd angen i ni gadw rhywfaint o wybodaeth bersonol categori arbennig amdanoch lle y mae'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau yn gysylltiedig â chyflogaeth. Ar adegau prin, gall fod rhesymau eraill dros brosesu, megis bod hynny er budd y cyhoedd. Gall y wybodaeth bersonol categori arbennig gynnwys:

- rhywedd
- tras hiliol neu ethnig
- credoau crefyddol neu athronyddol
- aelodaeth o undeb llafur
- iechyd corfforol neu iechyd meddwl (gan gynnwys manylion unrhyw anabledd hysbys)
- cyfeiriadedd rhywiol
- datganiad cymeriad
- symudedd cymdeithasol
- cyflawni trosedd neu honiad o gyflawni trosedd gennych, gan gynnwys canlyniadau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

## 7 At ba ddiben byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol categori arbennig a beth yw ein seiliau cyfreithiol dros wneud?

Defnyddiwn y wybodaeth bersonol categori arbennig yr ydym yn ei dal amdanoch at nifer o ddibenion gwahanol, yr ydym yn eu rhestru isod. Mae cyfraith diogelu data yn ein hatal rhag prosesu unrhyw wybodaeth bersonol categori arbennig oni bai ein bod ni'n gallu bodloni o leiaf un o'r amodau a osodir gan gyfraith diogelu data. Hefyd, rydym yn amlinellu isod yr amodau penodol yr ydym yn dibynnu arnynt wrth brosesu data categori arbennig.

Defnyddiwn y wybodaeth bersonol categori arbennig yr ydym yn ei dal amdanoch i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn yr achos hwn, yr amod yr ydym yn dibynnu arno ar gyfer prosesu'r wybodaeth yw monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n angenrheidiol am resymau budd cyhoeddus sylweddol, sef at ddibenion nodi neu adolygu'n barhaus fodolaeth neu absenoldeb cyfle neu driniaeth gyfartal rhwng grwpiau o bobl a bennir mewn perthynas â'r categori hwnnw, gyda'r nod o alluogi hyrwyddo neu gynnal cydraddoldeb o'r fath.

Hefyd, defnyddiwn y wybodaeth bersonol categori arbennig yr ydym yn ei dal amdanoch at y dibenion canlynol:

- cydymffurfio a dangos cydymffurfiad â chyfraith cyflogaeth ac arferion cyflogaeth gorau, ac unrhyw gyfreithiau perthnasol eraill
- cydymffurfio a dangos cydymffurfiad ag unrhyw ofynion rheoleiddiol
- delio ag unrhyw faterion disgyblu ac achwyno/anghydfod a allai godi mewn perthynas â chi neu eraill neu y gallwch ddarparu gwybodaeth berthnasol amdanynt i ni
- cofnodi eich absenoldebau o'r gwaith
- rhoi unrhyw fuddion iechyd i chi y gallai fod gennych yr hawl i'w cael
- asesu eich addasrwydd i weithio
- didynnu cost tanysgrifio o'ch cyflog ar gyfer eich aelodaeth o undeb llafur
- gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i'ch rôl

Yn yr achosion hyn, yr amodau y byddwn yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth yw ei bod yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol ym maes cyfraith cyflogaeth.

Mewn achosion pan fydd hawliad wedi'i ddwyn yn erbyn Estyn neu mae risg bosibl anghydfod neu hawliad cyfreithiol, mae'n bosibl y bydd angen i ni brosesu'ch gwybodaeth bersonol categori arbennig pan fo angen hynny i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Gall fod amgylchiadau pan fydd angen i ni brosesu'ch gwybodaeth bersonol categori arbennig, yn enwedig yn gysylltiedig â'ch iechyd, pan fo angen hynny i amddiffyn eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) ac nid oes gennych y gallu i gydsynio.

Rhagwelwn y byddwn yn dal rhywfaint o wybodaeth am euogfarnau troseddol.

Byddwn ond yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol os yw hynny'n briodol o ystyried natur y rôl a ble y gallwn wneud hynny yn ôl y gyfraith. Lle y bo'n briodol, byddwn yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol fel rhan o'r broses recriwtio neu gallem gael gwybod gennych yn uniongyrchol am wybodaeth o'r fath wrth i chi weithio gyda ni.

Byddwn ond yn defnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol lle y bo'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Bydd hyn fel arfer pan fydd prosesu o'r fath yn angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, sef, atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon, diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd, diogelu, atal twyll, neu amheuaeth o derfysgaeth neu wyngalchu arian.

Yn llai cyffredin, gallem ddefnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol lle y bo'n angenrheidiol yn gysylltiedig â hawliadau cyfreithiol, lle y bo'n angenrheidiol i amddiffyn eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) ac nid oes gennych y gallu i gydsynio, neu pan fyddwch eisoes wedi datgelu'r wybodaeth yn gyhoeddus.

Mae gennym ddogfen bolisi a dulliau diogelu priodol ar waith, y mae'n ofynnol o dan y gyfraith i ni eu cynnal wrth brosesu data o'r fath.

## 8 Am ba hyd rydym ni'n cadw'ch gwybodaeth?

I wneud yn siŵr ein bod yn bodloni'n rhwymedigaethau diogelu data a phreifatrwydd cyfreithiol, byddwn ond yn dal eich gwybodaeth am ba hyd bynnag y mae gwir angen arnom amdani at y dibenion y gwnaethom ei chaffael yn y lle cyntaf.

Gan amlaf, mae hyn yn golygu y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth am ba hyd bynnag y mae ei hangen, fel yr amlinellir yn ein Polisi Cadw a Gwaredu Cofnodion.

I bennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, risg bosibl niwed yn sgil defnydd anawdurdodedig o'ch data personol, neu ei datgelu'n anawdurdodedig, at ba ddibenion yr ydym yn prosesu'ch data personol a ph'un a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## 9 Gyda phwy rydym ni'n rhannu'ch gwybodaeth?

Bydd Estyn yn dal eich data personol. Bydd eich data personol yn cael ei rannu'n fewnol gydag unigolion a/neu adrannau eraill lle y bo angen rhesymol am hyn at y dibenion prosesu a amlinellir yn adran 5 uchod. Er enghraifft, bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth bersonol cyflogeion Estyn gyda phroseswyr cyflogres Llywodraeth Cymru er mwyn eich talu chi. Hefyd, bydd mynediad cyfyngedig gan arolygwyr at broffiliau arolygwyr eraill sy'n cymryd rhan mewn arolygiadau er mwyn rheoli'r arolygiad yn effeithiol.

O bryd i'w gilydd, bydd arnom angen rhannu'ch gwybodaeth gyda phobl a sefydliadau allanol. Byddwn yn gwneud hynny pan fydd gennym sail gyfreithiol neu gyfreithlon yn unig i wneud hynny, gan gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfreithiau diogelu data.

Gallai eich gwybodaeth gael ei datgelu i:

- **Lywodraeth Cymru a'i hasiantau** fel y gall cyflogau a phensiynau gael eu cyfrifo'n gywir
- **sefydliadau'r ydym yn eu harolygu** a fydd yn cael manylion cyswllt Arolygwyr perthnasol a staff perthnasol eraill er mwyn gallu cysylltu â nhw am faterion yn ymwneud ag arolygu
- **Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)** mewn cysylltiad â'ch tâl a'ch buddion

- **ein banc a'n biwro BACS** mewn cysylltiad ag unrhyw daliadau a wneir i chi
- **darparwyr pensiwn My Civil Service Pension a Swyddfa'r Cabinet** i ddarparu a gweinyddu'ch pensiwn
- **ein darparwr cyflogres (trwy Lywodraeth Cymru)** fel y gallwn eich talu chi
- **cwmnïau a busnesau sy'n darparu neu'n gweinyddu unrhyw fuddion a gynigiwn,** er enghraifft, os ydych chi wedi dewis talebau gofal plant, byddwn yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda darparwr y talebau gofal plant
- **pobl eraill sy'n ein helpu** i redeg ein busnes, er enghraifft darparwyr cymorth TG
- **ein hyswirwyr a'n broceriaid yswiriant** sy'n darparu yswiriant cynhwysfawr i ni yn erbyn risgiau rhedeg busnes
- **asiantaethau cyflogaeth a recriwtio a sefydliadau lleoliadau allanol**
- **cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr** fel Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, y Cyfrin Gyngor.
- **datganiadau statudol i sefydliadau'r llywodraeth** fel Swyddfa'r Cabinet, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Fenter Twyll Genedlaethol.
- **AD y Gwasanaeth Sifil** fel y gallwn gael at wasanaethau e.e. cymedroli, a darparu gwybodaeth am gyfansoddiad gweithlu'r gwasanaeth sifil
- **ein cynghorwyr proffesiynol** gan gynnwys ein harchwilwyr, Archwilio Cymru, wrth gynnal archwiliadau mewnol ac allanol
- **Iechyd Galwedigaethol a gweithwyr proffesiynol meddygol eraill, gan gynnwys sefydliadau cymdeithasol a lles,** i ddarparu barn feddygol i ni mewn perthynas ag unrhyw gyflwr meddygol, salwch neu anabledd sydd gennych neu y gallech ei ddatblygu yn ystod eu cyflogaeth/penodiad
- **yr Heddlu, awdurdodau lleol, y llysoedd** ac unrhyw awdurdod arall y llywodraeth, os byddant yn gofyn i ni ei datgelu (cyn belled ag y bo'n gyfreithlon i ni wneud yn unig)
- **ein cynghorwyr proffesiynol,** pan fydd ei hangen arnynt i roi eu cyngor proffesiynol i ni
- **y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a chwmni ymbarél y GDG**
- **pobl eraill sy'n gwneud cais gwrthrych am wybodaeth,** lle y mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ei datgelu
- **achwynwyr,** pan fo hyn yn angenrheidiol i ymateb i unrhyw gŵynion sy'n dod i law
- **pobl eraill pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i'w datgelu,** e.e. i gydymffurfio â gorchymyn llys
- **darpar gyflogwyr** mewn ymateb i geisiadau am eirda
- **sefydliadau addysgol, cyrff arholi, darparwyr cyrsiau** yn gysylltiedig ag unrhyw hyfforddiant a wnewch neu a wnaethoch
- **eich teulu neu'ch cynrychiolwyr**

## 10 Sut rydym ni'n cadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel?

Rydym yn cymryd amrywiol gamau i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol tra bydd yn ein meddiant, gan gynnwys:

- Rhoi camau diogelwch priodol ar waith i gyfyngu ar fynediad i'n seilwaith TG yn fewnol a thrwy fynediad o bell
- Rhoi polisïau diogelwch data mewnol ar waith a rhoi hyfforddiant i aelodau staff ar bolisïau o'r fath
- Mae staff yn cael hyfforddiant Diogelwch a Diogelu Data gorfodol y gwasanaeth sifil yn rheolaidd
- Negeseuon atgoffa rheolaidd i aelodau staff am eu cyfrifoldebau wrth brosesu data personol, cael ato neu ei ddefnyddio
- Mae ein darparwr gwasanaethau TG yn adolygu ein mesurau diogelwch data yn rheolaidd
- Sicrwydd gan ein cyflenwyr gwasanaethau TG dan gontract a allai fod yn ymdrin â'ch data personol fod systemau trylwyr ar waith ganddynt i gadw'ch data'n ddiogel
- Cadarnhad gan ein darparwyr gwasanaeth TG fod data'n cael ei gasglu a'i brosesu'n gyfreithlon, a heb dresmasu ar hawliau a rhyddid unigolyn
- Ymarferion rheolaidd ar adfer yn sgil argyfwng i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i ymosodiad seiber neu ddigwyddiad diogelwch data yn gyflym, yn effeithiol a heb risg torri rheolau diogelwch data
- Cynnal achrediad Hanfodion Seiber Plws blynyddol i amddiffyn rhag y bygythiadau seiber mwyaf cyffredin
- Diweddaru meddalwedd i amddiffyn rhag meddalwedd wystlo ac ymosodiadau seiber eraill
- Amgryptio dyfeisiau cludadwy sy'n cynnwys unrhyw ddata personol
- Polisïau mynediad trylwyr ynghylch ffonau symudol i atal mynediad anawdurdodedig

## 11 Pa hawliau sydd gennych o dan gyfraith diogelu data?

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych nifer o hawliau gwahanol yn gysylltiedig â defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o'r hawliau hynny a'n rhwymedigaethau. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau a'n rhwymedigaethau i'w gweld ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/.

1 **Hawl i gael gwybod** – Mae gan unigolion yr hawl i gael gwybod bod eu data personol yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio. Rhaid i ni roi gwybodaeth i unigolion sy'n cynnwys: ein dibenion ar gyfer prosesu'u data personol, ein cyfnodau cadw ar gyfer y data personol hwnnw a gyda phwy y bydd y data'n cael ei rannu.

2 **Hawl mynediad** – Dyma'r hawl i gael mynediad at eich data personol a gwybodaeth atodol amrywiol. Rhaid i ni roi copi i chi o'ch gwybodaeth bersonol a'r wybodaeth atodol arall heb oedi diangen a, phob amser, o fewn mis fel arfer o gael eich cais. Ni allwn godi arnoch am wneud hynny ac eithrio o dan amgylchiadau penodol (er enghraifft os byddwch chi'n gofyn am gopïau pellach o'ch gwybodaeth bersonol).

3 **Hawl i gywiro data personol** – Dyma hawl i gywiro'ch gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir neu'n anghyflawn. Rhaid i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir

neu anghyflawn heb oedi diangen a, phob amser, o fewn mis o gael eich cais. Os byddwn wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i eraill, rhaid i ni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â'r sawl â'i derbyniodd i roi gwybod iddynt fod angen cywiro'ch gwybodaeth bersonol.

4 **Hawl dileu** – Dyma hawl i gael dileu neu waredu eich gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl hon yn berthnasol o dan rai amgylchiadau yn unig (er enghraifft pan nad oes arnom angen y wybodaeth bersonol mwyach at ddibenion ei chasglu). Mae'r hawl gennym wrthod dileu neu waredu eich data personol o dan rai amgylchiadau. Os bydd yr hawl hon yn berthnasol, rhaid i ni ddileu neu waredu eich gwybodaeth bersonol heb oedi diangen a, phob amser, o fewn mis o gael eich cais. Os byddwn wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i eraill, rhaid i ni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â'r sawl â'i derbyniodd i roi gwybod iddynt fod angen dileu'ch gwybodaeth bersonol.

5 **Hawl i gludadwyedd data** – Dyma hawl i gael ac ailddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at eich dibenion eich hun. Mae'n cynnwys hawl i ofyn bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i sefydliad arall (lle y bo'n ymarferol yn dechnegol). Mae'r hawl hon yn berthnasol o dan rai amgylchiadau cyfyngedig yn unig. Os bydd yr hawl hon yn berthnasol, rhaid i ni ddarparu eich gwybodaeth bersonol i chi ar ffurf strwythuredig, sy'n cael ei defnyddio'n gyffredin ac y gall peiriant ei darllen. Eto, mae'n rhaid i ni weithredu heb oedi diangen a, phob amser, o fewn mis o gael eich cais. Ni allwn godi tâl arnoch am y gwasanaeth hwn.

6 **Hawl i wrthwynebu** – Dyma hawl i wrthwynebu i'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl yn berthnasol o dan rai amgylchiadau penodol yn unig. Gallwch ddefnyddio'r hawl hon i herio'n defnydd o'ch gwybodaeth bersonol ar sail ein buddiannau cyfreithlon neu pan fo prosesu'n angenrheidiol i gyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Hefyd, gallwch ddefnyddio'r hawl hon i wrthwynebu defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol. Os byddwch chi'n gwrthwynebu defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol, mae'n rhaid i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol fel hyn cyn gynted ag y cawn eich cais. Os byddwch chi'n gwrthwynebu defnydd arall ar eich gwybodaeth bersonol, yr amgylchiadau penodol fydd yn pennu p'un a oes rhaid i ni roi'r orau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol.

7 **Hawl i wrthwynebu penderfyniadau awtomataidd** – Dyma hawl i beidio â bod yn destun penderfyniad a wneir dim ond ar sail prosesu'ch gwybodaeth bersonol yn awtomataidd, lle bydd y penderfyniad dan sylw'n cael effaith gyfreithiol arnoch chi neu effaith arwyddocaol debyg. Lle gwneir penderfyniad o'r fath, rhaid i chi gael gwybod am y ffaith honno cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn rhesymol. Yna, mae gennych 21 diwrnod o gael yr hysbysiad i ofyn am ailystyried y penderfyniad neu nad yw penderfyniad yn cael ei wneud ar sail prosesu awtomataidd yn unig. Rhaid cydymffurfio â'ch cais o fewn 21 diwrnod.

8 **Hawl i gyfyngu ar brosesu** – Dyma hawl i 'atal' neu ffrwyno prosesu'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r hawl hon yn berthnasol mewn amgylchiadau amrywiol, gan gynnwys pan fyddwch chi'n herio cywirdeb eich gwybodaeth. Os bydd angen i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn gallu

ei storio ond ni fyddwn yn gallu'i defnyddio fel arall. Dim ond digon o wybodaeth amdanoch i sicrhau bod y cyfyngiad yn cael ei barchu yn y dyfodol y gallwn ei chadw. Os byddwn wedi datgelu'ch gwybodaeth bersonol i eraill, rhaid i ni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â'r sawl â'i derbyniodd i roi gwybod iddynt am y cyfyngiad ar ei defnyddio.

Os byddwch yn dymuno arfer unrhyw rai o'ch hawliau, gallwch wneud cais trwy gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion isod.

Os byddwch yn gwneud cais am arfer unrhyw rai o'ch hawliau, mae hawl gennym ni ofyn i chi ddarparu unrhyw wybodaeth y gall fod ei hangen arnom i gadarnhau pwy ydych chi.

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein polisi Mynediad at Wybodaeth.

## 12 Eich hawl i dynnu cydsyniad yn ôl

Os ydych wedi rhoi cydsyniad i ni ddefnyddio unrhyw wybodaeth bersonol, gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. I wneud hynny, anfonwch e-bost at adnoddaudynol@estyn.llyw.cymru neu cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion isod.

## 13 Cywirdeb

Os bydd unrhyw rai o'ch manylion personol yn newid yn ystod eich cyflogaeth/penodiad, dylech gysylltu â'r tîm Adnoddau Dynol neu ddiwygio'ch cofnod ar y System AD a'ch Proffil Arolygydd, os yw'n berthnasol, i'w hysbysu nhw a darparu'r wybodaeth gywir gyfredol iddynt. Fel mater o drefn, byddwn yn anfon gohebiaeth yn flynyddol i atgoffa pawb am yr angen i sicrhau bod y data personol yr ydych wedi'i ddarparu i ni yn gywir.

## 14 Sut gallwch chi gysylltu â ni?

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod eich gwybodaeth ar unrhyw adeg. Byddai ein tîm Adnoddau Dynol yn hapus i helpu.

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data i oruchwylio'n bod yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data a'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Mae ei fanylion isod. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, sut rydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol, neu os hoffech gwyno, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data.

Gallwch gysylltu â ni fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad post** | Swyddog Diogelu Data,<br>Estyn,<br>Llys Angor,<br>Heol Keen,<br>Caerdydd,<br>CF24 5JW | Adnoddau Dynol,<br>Estyn,<br>Llys Angor,<br>Heol Keen,<br>Caerdydd,<br>CF24 5JW |
| **Cyfeiriad e-bost** | ymholiadau@estyn.llyw.cymru | adnoddaudynol@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif ffôn** | 029 2044 6446 | 029 2044 6446 |

## 15 Yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os na allwn ddelio â chwyn er boddhad i chi neu os ydych yn anfodlon â'r ffordd rydym ni'n defnyddio'ch data personol, mae gennych yr hawl hefyd i gwyno ar

unrhyw adeg i awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data, sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545745

E-bost: casework@ico.org.uk